Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# Safonau ar gyfer Prif Fferyllwyr

Ionawr 2025

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei hatgynhyrchu'n fanwl-gywir ac nid mewn cyd- destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y deunydd hwn a rhaid rhoi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, mae'n rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gael copi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol Ionawr 2025

# Cynnwys


Amdanom ni .......... 4

Beth a wnawn .......... Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad .......... Error! Bookmark not defined.

Gorchymyn Fferylliaeth (Camgymeriadau Paratoi a Chyflenwi – Ysbytai a Gwasanaethau Fferyllol Eraill) 2022 .......... Error! Bookmark not defined.

Rôl y Prif Fferyllydd .......... Error! Bookmark not defined.

Sut i ddangos bod y safonau'n cael eu bodloni .......... Error! Bookmark not defined.

Cymhwyso'r safonau .......... 8

Safon 1: Darparu arweinyddiaeth strategol a phroffesiynol .......... 9

Safon 2: Datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r sgiliau iawn .......... 10

Safon 3: Dirprwyo cyfrifoldeb a gofalu bod llinellau atebolrwydd clir .......... 12

Safon 4: Cynnal a chryfhau llywodraethiant i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol .......... 13

**Ionawr 2025**

# Amdanom ni

Rydym yn rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllfol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydym yn gweithio i sicrhau a gwella safonau gofal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

## Beth a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Gosodwn safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn cael bod ar ein cofrestr ac aros arni.

Gofynnwn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i fodloni ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth os oes pryderon am weithiwr fferyllfol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Trwy ein gwaith, rydym yn helpu i hyrwyddo proffesiynoldeb, cefnogi gwelliannau parhaus a sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

# Cyflwyniad

## Gorchymyn Fferylliaeth (Camgymeriadau Paratoi a Chyflenwi – Ysbytai a Gwasanaethau Fferyllol Eraill) 2022

Nod y Gorchymyn hwn yw cael gwared â'r bygythiad o gosbau troseddol am gamgymeriadau paratoi neu gyflenwi diofal (damweiniol neu anfwriadol) gan staff fferyllol sy'n gweithio mewn ysbytai a lleoliadau tebyg.

O dan Ddeddf Meddyginiaethau 1968, mae 'amddiffyniadau' y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol eu defnyddio'n barod os ydynt yn gyfrifol am baratoi neu gyflenwi drwy gamgymeriad neu'n anfwriadol.

Ers 2018, mae staff fferyllol sy'n gweithio mewn fferyllfeydd cofrestredig wedi gallu defnyddio'r amddiffyniadau hyn. Erbyn hyn mae'r Gorchymyn yn cynnwys staff fferyllol sy'n gweithio mewn ysbytai a lleoliadau fferyllol penodol eraill, fel cartrefi gofal, rhai Byrddau Gofal Integredig, rhai ymddiriedolaethau ambiwlans, carchardai, a lleoedd eraill lle caiff pobl eu cadw'n gyfreithlon.

Bydd cynnwys y lleoliadau fferyllol eraill hyn yn:

- arwain at gysondeb ar draws y sector fferyllol
- annog pobl i roi gwybod am gamgymeriadau paratoi a chyflenwi; ac
- yn golygu bod mwy o 'rannu gwersi' o gamgymeriadau, a fydd yn gwella diogelwch cleifion

Os nad ydych yn siŵr os ydych chi neu staff eich sefydliad yn gallu elwa ar yr amddiffyniadau hyn, gofynnwch i dîm cyfreithiol eich sefydliad am gyngor.

Mae'r Gorchymyn yn rhoi pwerau newydd amrywiol i'r CFfC. Un o'r rhain yw'r pŵer i osod safonau proffesiynol ar gyfer Prif Fferyllwyr, gan gynnwys disgrifiad o'u cyfrifoldebau proffesiynol. Drwy gynhyrchu safonau newydd, byddwn yn egluro rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y Prif Fferyllwyr. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnal ac yn cryfhau llywodraethiant fferylliaeth. Bydd cryfhau'r llywodraethiant yn creu fframwaith lle mae llai o debygolrwydd o gamgymeriadau paratoi a chyflenwi, a diwylliant lle mae staff yn teimlo y gallant roi gwybod am unrhyw wallau a dysgu oddi wrthynt.

Er mwyn elwa ar yr amddiffyniadau a nodir yn y Gorchymyn, rhaid i'r ysbyty (neu leoliad fferyllol arall a restrir yn y Gorchymyn) gael Prif Fferyllydd (neu swydd gyfatebol) ar waith. Rhaid cael fferyllydd cofrestredig sydd â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r profiad priodol. Os yw sefydliad yn dewis cael Prif Fferyllydd (neu swydd gyfatebol), rhaid i ddeiliad y swydd fodloni'r safonau a amlinellir yn y ddogfen hon.

Mae'r ddeddfwriaeth yn 'galluogi' o ran ei heffeithiau, yn hytrach na gosod rheolau newydd. Mae hyn yn golygu y gall sefydliad ddewis peidio ag elwa ar yr amddiffynfeydd, ac os felly, ni fydd angen iddynt gael Prif Fferyllydd (neu swydd gyfatebol) ar waith. Os felly, ni fydd ein safonau ar gyfer Prif Fferyllwyr yn gymwys.

Rydym wedi creu'r safonau er mwyn i sefydliadau allu bodloni'r ddeddfwriaeth newydd. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cyflawn o gwmpas rôl Prif Fferyllydd, sy'n aml yn

gallu bod yn wahanol yn y systemau annibynnol a’r GIG ledled Cymru, Lloegr a’r Alban. Serch hynny, rydym yn annog sefydliadau i gydnabod ac i ddilyn y safonau fel rhan o arfer da ac i gryfhau llywodraethiant fferylliaeth.

Datblygu’r safonau hyn ar gyfer Prif Fferyllwyr yw rhan gyntaf rhaglen waith i gryfhau llywodraethiant fferylliaeth. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys llunio rheolau a safonau proffesiynol ar gyfer Fferyllwyr Cyfrifol, a safonau proffesiynol ar gyfer Fferyllwyr Arolygol.

## Rôl Prif Fferyllydd

O dan Orchymyn 2022, rhaid i sefydliadau yn unrhyw un o’r lleoliadau fferyllol a restrir gael Prif Fferyllydd (neu swydd gyfatebol) ar waith os ydynt eisiau elwa o’r amddiffyniadau rhag erlyniad troseddol os gwneir camgymeriad paratoi neu gyflenwi damweiniol neu anfwriadol.

Rhaid i ddeiliad y swydd fodloni ein **Safonau ar gyfer Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol** ynghyd â safonau ar gyfer Prif Fferyllwyr. Mae’r Safonau ar gyfer Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol yn disgrifio sut mae gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu drwy broffesiynoldeb ‘sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn’, a sut mae’n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol drin pob person fel unigolyn. Mae’r safonau newydd ar gyfer Prif Fferyllwyr yn adeiladu ar y safonau hynny, gan ddisgrifio rôl a chyfrifoldebau’r Prif Fferyllwyr yn ogystal â phennu safonau ymddygiad a pherfformiad. Mae’r Safonau ar gyfer Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol a’r Prif Fferyllwyr yn gymwys i Brif Fferyllwyr pa leoliad bynnag y maent yn gweithio ynddo, a hyd yn oed pan nad ydynt yn darparu gofal yn uniongyrchol i gleifion a'r cyhoedd. Gall agweddau, ymddygiad ac ymarfer Prif Fferyllwyr gael effaith anuniongyrchol ar y gofal diogel ac effeithiol y mae cleifion a’r cyhoedd yn ei dderbyn, ac ar hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth drwyddi draw.

Mae Prif Fferyllwyr yn uwch weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy’n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth, arbenigedd, a goruchwyliaeth a rheolaeth o wasanaethau fferyllol o fewn sefydliad. Mae’r rôl yn cynnwys:

- cynllunio a dyrannu adnoddau
- gwella cynhyrchiant
- darparu gwerth am arian, a
- sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn bodloni anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac yn gwella canlyniadau iechyd

Mae gwaith Prif Fferyllydd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel, ac effeithiol yn y lleoliadau hyn.

Nid oes rhaid defnyddio teitl ‘Prif Fferyllydd’. Defnyddir teitlau eraill, fel Cyfarwyddwr Fferylliaeth, yn aml. Os defnyddir teitl heblaw am Brif Fferyllydd, er mwyn i’r sefydliad elwa o’r amddiffyniadau mae’n rhaid i’r disgrifiad swydd fodloni’r:

- disgrifiad o rôl Prif Fferyllydd a roddir yn adran 67F (4) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968, a’n
- gofynion ni yn y safonau hyn ar gyfer Prif Fferyllwyr

Mae Adran 67F (4) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968 yn nodi mai rôl y Prif Fferyllydd (neu swydd gyfatebol) yw rhywun sy’n:

a. *cyflawni rôl arwyddocaol (os yw unigolion eraill yn gwneud hynny hefyd ai peidio) yn:*

   i. *Gwneud penderfyniadau am sut mae gwasanaeth fferyllol, boed yn gyfan neu ran sylweddol ohono, yn cael ei reoli a'i drefnu, neu*

   ii. *Y gwaith go iawn o reoli neu drefnu'r gweithgareddau hynny, boed yn gyfan neu ran sylweddol ohonynt.*

b. *Meddu ar yr awdurdod sy'n effeithio ar y ffordd y caiff y gwasanaeth fferyllfol ei redeg o ran pryderon am werthu neu gyflenwi cynhyrchion meddyginiaethol, ac*

c. *Sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y gwasanaeth fferyllol ei ddarparu'n ddiogel ac effeithiol.*

Rhaid i'r Prif Fferyllydd (neu swydd gyfatebol) fodloni'r gofynion hyn os yw eu sefydliad am i staff y fferyllfa elwa o'r amddiffyniadau. Rydym wedi adeiladu ar y gofynion hyn wrth gynhyrchu'r safonau ar gyfer Prif Fferyllwyr. Os nad yw Prif Fferyllydd yn bodloni'r safonau hyn, efallai y byddwn yn ymchwilio i bryderon am eu haddasrwydd i ymarfer.

# Y safonau ar gyfer Prif Fferyllwyr

Mae'r safonau ar gyfer Prif Fferyllwyr yn nodi eu cyfrifoldebau proffesiynol. Maent hefyd yn disgrifio'r wybodaeth, yr ymddygiad a'r perfformiad sydd eu hangen ar Brif Fferyllydd i gefnogi'r sefydliad a'i staff i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol, gan gynnwys paratoi a chyflenwi meddyginiaethau.

Mae'r Prif Fferyllydd yn chwarae rôl arweiniol hanfodol wrth wneud yn siŵr bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol. Rhaid i Brif Fferyllwyr fodloni'r safonau canlynol:

1. **Darparu arweinyddiaeth strategol a phroffesiynol.**
2. **Datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad iawn.**
3. **Dirprwyo cyfrifoldeb a sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir.**
4. **Cynnal a chryfhau llywodraethiant i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol.**

Cynlluniwyd y  safonau i ganolbwyntio ar 'ganlyniadau' gan gydnabod amgylchiadau gwahanol leoliadau fferyllol. Nid ydym yn cynnig unrhyw un ffordd o gyflawni pob canlyniad, rydym yn derbyn yn hytrach y gall fod sawl ffordd wahanol o gyflawni'r un canlyniad. Er enghraifft, rhaid i bob Prif Fferyllydd ddatblygu gweithlu sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad iawn. Y canlyniad neu'r nod yw darparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol, ond bydd sut fydd pob Prif Fferyllydd yn cyflawni hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan

gynnwys y gwasanaethau y maent yn eu darparu, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad eu tîm presennol, yr adnoddau sydd ar gael iddynt, ac ati. Dylai Prif Fferyllwyr sicrhau y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r safonau, tra'n ystyried gofynion y lleoliad y maent yn gweithio ynddo. Mae'r safonau yn ddatganiad hefyd o beth all cleifion a phobl eraill sy'n gweithio gyda Phrif Fferyllwyr ei ddisgwyl ganddynt.

## Sut i ddangos bod y safonau'n cael eu bodloni

Gall Prif Fferyllydd ddangos eu bod yn bodloni'r safonau mewn sawl ffordd:

- yn ystod trafodaeth mewn arolygiad rheoleiddio
- trwy gyfeirio at ofynion eu rôl fel Prif Fferyllydd wrth gyflawni eu gwaith ailddilysu
- trwy ymchwiliad, os caiff y rheoleiddiwr wybod am bryder:
  - gan aelod o staff, claf neu aelod o'r cyhoedd, neu
  - trwy archwiliadau neu gamau rheoleiddio eraill a gymerwyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, Healthcare Improvement Scotland, neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- yn ystod adolygiadau perfformiad rheolaidd gyda'u rheolwr llinell

## Cymhwyso'r safonau

Rydym wedi datblygu'r safonau ar gyfer pob Prif Fferyllydd, ym mha leoliad bynnag y maent yn gweithio. Er efallai na fydd Prif Fferyllwyr yn darparu gofal i gleifion a'r cyhoedd yn uniongyrchol, caiff eu gweithredoedd effaith ar y gofal diogel ac effeithiol y mae cleifion a'r cyhoedd yn ei dderbyn, ac ar yr hyder sydd gan y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae Prif Fferyllwyr yn atebol yn bersonol am fodloni'r safonau ac mae'n rhaid iddynt allu cyfiawnhau eu hymddygiad a'r penderfyniadau a wnânt.

Ynghyd â'r safonau hyn, rhaid i Brif Fferyllwyr hefyd fodloni safonau'r CFfC ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu bodloni. Hefyd, dylai Prif Fferyllwyr ddilyn polisïau a gweithdrefnau eu sefydliad, a bodloni gofynion, a dilyn cyngor gan, gyrff ac arolygiaethau rheoleiddio perthnasol eraill, fel y Comisiwn Ansawdd Gofal, Healthcare Improvement Scotland, ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Fe fydd adegau pan mae Prif Fferyllwyr yn wynebu cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol croes. Neu efallai y byddant yn wynebu sefyllfaoedd cymhleth sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gydbwyso blaenoriaethau gwahanol. Mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r rhai ar gyfer Prif Fferyllwyr yn

cynnig fframwaith i'w helpu wrth wneud penderfyniadau proffesiynol. Disgwyliwn i Brif Fferyllwyr ystyried y safonau hyn, eu dyletswyddau cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau perthnasol, gan gynnwys rhai'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) neu gyrff aelodaeth eraill wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â deddfwriaeth meddyginiaethau.

## Safon 1: Darparu arweinyddiaeth strategol a phroffesiynol

Fel arweinwyr, mae Prif Fferyllwyr yn chwarae rôl ganolog wrth bennu'r cyfeiriad strategol sydd ei angen er mwyn darparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol. Rhan o rôl y Prif Fferyllydd yw grymuso ac arwain gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r gweithlu ehangach i sicrhau gwell canlyniadau i gleifion.

Rhaid i Brif Fferyllwyr:

- **gael gweledigaeth a strategaeth glir i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol ar draws y sefydliad**
- **arwain trwy esiampl, a chymryd cyfrifoldeb am eu twf a'u datblygiad proffesiynol eu hunain**
- **gallu cydweithio a dylanwadu ar eraill, i fodloni anghenion cleifion a chyfrannu at amcanion cyffredin sefydliadau a systemau**
- **hyrwyddo ymchwil, technoleg ac arloesedd i gryfhau diogelwch a gwella gwasanaethau**

### Enghreifftiau o sut i gyflawni'r safon hon

Dyma rai enghreifftiau o sut gall Prif Fferyllwyr fodloni'r safon hon. Nid oes bwriad iddi fod yn rhestr gyflawn, a dylid ei defnyddio i'ch atgoffa ac nid fel rhestr wirio:

- gallu adeiladu perthnasoedd effeithiol ar bob lefel y tu fewn a thu allan i'r sefydliad, ac ar draws ffiniau sefydliadau
- adeiladu a datblygu gwaith partneriaeth gyda rhanddeiliaid y tu fewn a thu allan i'r sefydliad

- bodloni blaenoriaethau'r sefydliad a dangos eu bod yn cadw at bolisïau allweddol y sefydliad, fel y Ddyletswydd Gonestrwydd
- gwneud yn siŵr bod staff yn deall eu heffaith nhw ac effaith ehangach fferylliaeth ar gleifion
- gallu datrys problemau mewn sefyllfaoedd o bwysau uchel
- gallu dadansoddi a dehongli data a gwybodaeth gymhleth wrth wneud penderfyniadau
- arddangos sgiliau da wrth wneud penderfyniadau sy'n cael effaith bositif ar sut mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu
- gallu addasu ac arloesi er mwyn diwallu anghenion cleifion wrth iddynt newid a newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu
- cadw cysylltiad â datblygiadau yn y sector fferylliaeth a defnyddio unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd yn eu sefydliad eu hunain
- datblygu a chefnogi diwylliant o ymchwil ac arloesi
- darparu arweinyddiaeth glinigol wrth gyrchu a rheoli meddyginiaethau ar draws y sefydliad
- darparu cefnogaeth broffesiynol a chyngor fferyllol arbenigol i gydweithwyr
- rhoi sylwadau ar ofynion eu rôl wrth ailddilysu'n flynyddol

## Safon 2: Datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad iawn

Er mwyn darparu gwasanaethau fferyllol o ansawdd uchel, effeithlon a diogel sydd â chanlyniadau positif i gleifion, mae'n rhaid i staff gael y  sgiliau, y wybodaeth a'r profiad iawn. Fel rhan o'u cyfrifoldeb cyffredinol, rhaid i Brif Fferyllwyr sicrhau bod gweithlu'r fferyllfa yn derbyn y datblygiad a'r hyfforddiant angenrheidiol. Hefyd, mae'n rhaid iddynt drefnu 'cynllun olyniaeth', fel nad yw effeithlonrwydd y tîm yn dioddef pan mae staff yn symud ymlaen.

Rhaid i Brif Fferyllwyr:

- **fod yn ymwybodol o ba sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol yn eu lleoliad**
- **gwneud y defnydd gorau o adnoddau, a chael y gymysgedd gywir o sgiliau ymhob tîm i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol**
- **cefnogi a gwerthfawrogi staff, ac ystyried eu hiechyd a'u llesiant**
- **creu a chynnal diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant lle:**
  - **mae pobl (gan gynnwys staff, cleifion a'r cyhoedd) yn cael eu trin yn gyfartal, gydag urddas a pharch, a**
  - **mae staff yn bodloni eu cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, tra'n parchu amrywiaeth a gwahaniaethau diwylliannol**

- **gwneud yn siŵr bod staff yn eu sefydliad yn gwybod pwy yw'r Prif Fferyllydd**
- **rhoi gwybod i staff y gallant elwa o'r amddiffyniadau, ar yr amod y bodlonir rhai amodau penodol**
- **hyrwyddo diwylliant lle mae staff yn teimlo'n ddiogel i roi gwybod am gamgymeriadau a digwyddiadau fu bron â digwydd, ac y gallant ddysgu oddi wrthynt**
- **gwneud yn siŵr bod staff yn bodloni ac yn ymwybodol o unrhyw ddeddfwriaeth a safonau perthnasol, yn ogystal â'r safonau a'r canllawiau a osodwyd gan reoleiddwyr a chyrff aelodaeth eraill**

## Enghreifftiau o sut i gyflawni'r safon hon

Dyma rai enghreifftiau o sut gall Prif Fferyllwyr fodloni'r safon hon. Nid oes bwriad iddi fod yn rhestr gyflawn, a dylid ei defnyddio i'ch atgoffa ac nid fel rhestr wirio:

- bod yn ymwybodol o'r gymysgedd o sgiliau ym mhob tîm, gan sicrhau bod bylchau'n cael eu hadnabod ac y cymerir y camau angenrheidiol
- datblygu strategaethau recriwtio a chadw staff, ynghyd â chynlluniau olyniaeth, i ddelio ag unrhyw broblemau gyda'r gweithlu neu broblemau staffio
- cadw cynlluniau addysg a hyfforddiant yn gyfoes sy'n cefnogi'r gweithlu gyda'u datblygiad parhaus, gan gynnwys pan gyflwynir arloesedd a thechnolegau newydd
- annog staff i gydweithio, gan gynnwys fel rhan o dimau integredig ac aml-ddisgyblaethol
- helpu i ddiogelu hawliau unigolion
- hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith staff, cleifion a'r cyhoedd
- helpu i wella profiad a chanlyniadau gofal iechyd cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol eu sefydliad
- ymgorffori polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad i arferion rheoli timau – er enghraifft, o ran hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, fel yr un ar adeiladu 'cymhwysedd diwylliannol'
- dangos arweiniad wrth ddarparu gofal cynhwysol a lleihau anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo cyfle cyfartal a herio ymddygiad gwahaniaethol, ar draws yr holl ryngweithio â chleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd
- datblygu diwylliant lle mae staff yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi gydag ymddygiad heriol fel gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu
- sicrhau bod systemau ar waith fel y gall y gweithlu gynnig adborth ac awgrymiadau, a chyfrannu at ddatblygu a gwneud newidiadau yng ngwasanaeth y fferyllfa
- adnabod arfer da a'i rannu gyda'r holl staff perthnasol
- sicrhau bod staff yn cael adolygiadau datblygu rheolaidd a bod unrhyw anghenion datblygu yn cael eu diwallu
- datblygu diwylliant lle mae staff yn teimlo'n hyderus am leisio pryderon, yn unol â'r ddyletswydd gonestrwydd. Ystyr hynny yw'r cyfrifoldeb proffesiynol i fod yn agored a gonest gyda chleifion pan mae rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u triniaeth neu ofal sy'n

achosi, neu sydd â'r potensial i achosi, niwed neu drallod.

## Safon 3: Dirprwyo cyfrifoldeb a sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir

Mae gan Brif Fferyllwyr gyfrifoldebau amrywiol iawn ac maent yn aml yn gorfod dirprwyo i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol. Er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd, rhaid i Brif Fferyllwyr ddirprwyo'n gyfrifol. Fel uwch arweinwyr, wrth ddirprwyo, mae Prif Fferyllwyr yn gyfrifol ac yn atebol am wneud yn siŵr bod llinellau atebolrwydd yn glir. Rhaid cofnodi manylion dirprwyo, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol. Bydd hyn yn lleihau camgymeriadau ac yn meithrin diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd. Os yw staff fferyllfeydd yn mynd i barhau i elwa o'r amddiffyniadau, rhaid i leoliad fferyllol ofalu, os yw Prif Fferyllydd yn gadael y sefydliad, fod Prif Fferyllydd interim neu dros dro ar waith.

Rhaid i Brif Fferyllwyr:

- **roi eglurder am rolau, cyfrifoldebau a phwy sy'n atebol yng ngweithlu'r fferyllfa**
- **cynnal asesiadau risg priodol a dirprwyo i bobl sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad perthnasol yn unig, ac sy'n hyderus i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ychwanegol**
- **cyfathrebu'n effeithiol a chofnodi penderfyniadau dirprwyo'n gywir**

### Enghreifftiau o sut i gyflawni'r safon hon

Dyma rai enghreifftiau o sut gall Prif Fferyllwyr fodloni'r safon hon. Nid oes bwriad iddi fod yn rhestr gyflawn, a dylid ei defnyddio i'ch atgoffa ac nid fel rhestr wirio:

- gallu rheoli'n llwyddiannus a lleihau risg glinigol, risg ddiogelwch, risg ariannol a risg i enw da
- sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu gwneud ac yr ymgynghorir â staff perthnasol a'u cynnwys yn y gwaith
- sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu lle bo angen, er enghraifft, os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd
- caniatáu i staff wrthod tasg a ddirprwywyd os oes ganddynt reswm da, er enghraifft, os ydynt yn teimlo bod y dasg y tu hwnt i gwmpas eu hymarfer
- sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r strwythur adrodd

## Safon 4: Cynnal a chryfhau llywodraethiant i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol

Mae sefydlu llywodraethiant clir, ac yna ei gynnal a'i gryfhau, yn rhan allweddol o rôl y Prif Fferyllydd. Mae'n cynnwys sawl agwedd, fel cael trefniadau ar gyfer rheoli risgiau a goruchwylio sut mae'r fferyllfa'n cael ei rheoli a'i rhedeg. Er mwyn dangos eu bod yn bodloni'r safon hon, rhaid i Brif Fferyllwyr gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel a chymryd agwedd strategol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar sut mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu a'u trefnu.

- Rhaid i Brif Fferyllwyr:
- **gael goruchwyliaeth o holl wasanaethau a staff fferyllol a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol**
- **sefydlu a chyfathrebu llinellau adrodd clir**
- **sicrhau bod proses ar gyfer cael adborth, sy'n cynnwys adborth am ymyriadau, camgymeriadau a digwyddiadau, ac y caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd a'i rheoli'n briodol**

### Enghreifftiau o sut i gyflawni'r safon hon

Dyma rai enghreifftiau o sut gall Prif Fferyllwyr fodloni'r safon hon. Nid oes bwriad iddi fod yn rhestr gyflawn, a dylid ei defnyddio i'ch atgoffa ac nid fel rhestr wirio:

- adolygu gweithdrefnau llywodraethiant yn rheolaidd, gan gynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol (SOP), a goruchwylio sut mae'r fferyllfa'n cael ei rhedeg a sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu
- gwneud yn siŵr bod y cofnodion angenrheidiol yn cael eu cadw a'u bod yn gyfoes ac yn gywir
- sicrhau bod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith, a bod staff perthnasol yn cael eu hyfforddi ar sut i'w defnyddio
- cynnal trefniadau cadarn ar fesur ac adrodd ar berfformiad, a gwneud newidiadau lle bo angen
- goruchwylio a chyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau
- cael systemau ar waith i ragweld, adnabod ac ymateb i risgiau
- sicrhau bod systemau ar waith i adnabod a rhoi gwybod am gamgymeriadau, gan gynnwys camgymeriadau paratoi a chyflenwi, a bod camgymeriadau'n cael eu hadolygu a'u rheoli'n briodol
- adolygu cwynion a phryderon mewnol ac allanol yn rheolaidd a gweithredu arnynt
- cynllunio a defnyddio adnoddau yn effeithiol, gan ystyried unrhyw ofynion ariannol, archwiliol a chyllidebol

**Ionawr 2025**

**General Pharmaceutical Council**
**One Cabot square, London E14 4QJ**
Ff **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPhC**
**TheGPhC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**